



PUMED ADRODDIAD BLYNYDDOL PWLS TENANTIAID

MEWNWELIADAU GAN DENANTIAID LEDLED CYMRU



RHAGFYR 2025
WWW.TPAS.CYMRU



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

NODDWYR LLAIS Y TENANT



TABL CYNNWYS

RHAGAIR	3	MATERION DEMOGRAFFEG	10
CRYNODEB GWEITHREDOL	4	MATERION DARGANFYDDIADAU	14
CYDNABYDDIAETHAU	6	CASGLIAD: RYDYCH CHI'N CYFRIF	39
MATERION CYD-DESTUN	7	CYFEIRNODAU	41
MATERION METHODOLEG	8	ATODIAD	43

Rhagair: Croeso i'n Pwls Tenantiaid Blynyddol Cymru Gyfan diweddaraf

Gwneir y Pwls hwn yn flynyddol i gofnodi sut mae tenantiaid a rhentwyr yn teimlo **ar hyn o bryd** am eu cartref, eu cymunedau a'u bywydau.

Un o gryfderau'r adroddiad hwn yw ein bod yn casglu barn tai cymdeithasol, rhentwyr preifat a thai â chymorth.

Mae Cymru'n wynebu llawer o heriau yn lleol ac yn fyd-eang ac mae'n hanfodol ein bod yn cymryd amser i ofyn i denantiaid a rhentwyr sut maen nhw'n teimlo am faterion allweddol.

Mae bwydo llais y tenant i sgysiau ar lefel genedlaethol yn hanfodol. Rhaid ei glywed, a rhaid i lunwyr polisi weithredu arno. Dyma un o'r nifer o ffyrdd y mae TPAS Cymru yn galluogi llais tenantiaid ac mae canllaw rhagorol ar gael ar ein gwefan o'r nifer o ffyrdd.

Nid dyma ddiwedd y dasg i ni. Dyma'r dechrau, o fan hyn byddwn yn annog gwleidyddion, y cyfryngau a llunwyr polisi tai ac ati i ddarllen yr adroddiad hwn. Byddwn yn cyflwyno canfyddiadau i grwpiau a byrddau tenantiaid. Os yw hynny o ddiddordeb i'ch sefydliad neu grŵp tenantiaid, cysylltwch â ni.

Fe sylwch ar rai newidiadau a mân addasiadau cadarnhaol i'r arddull a'r cynllun, wrth i Olivia Browne roi ei marc fel ein harweinydd gwych ar yr adroddiad hwn. Gobeithiwn y byddwch yn hoffi'r gwelliannau ac rydym yn gwerthfawrogi unrhyw adborth.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i lunio eich gwaith a'ch strategaethau wrth fynd i mewn i 2026. Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud tai'n well yng Nghymru.



David Wilton
Prif Weithredwr
TPAS Cymru

Crynodeb Weithredol

Mae arolwg Tenant Pulse 2025 yn tynnu sylw at realiti cymhleth rhentu yng Nghymru heddiw. Mae profiadau tenantiaid yn cael eu llunio nid yn unig gan y cartrefi y maent yn byw ynddynt ond hefyd gan bwysau fforddiadwyedd, rhyngweithiadau landlordiaid, amodau cymunedol, a ffactorau cymdeithasol-wleidyddol ehangach. Er bod llawer o denantiaid yn nodi bodlonrwydd â'u cartrefi ac ymgysylltiad landlordiaid, mae anghydraddoldebau sylweddol yn parhau. Mae'r rhain yn arbennig o amlwg ar gyfer aelwydydd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis: tenantiaid anabl, aelwydydd niwroamrywiol, rhentwyr iau, a'r rhai o Grwpiau Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig.

Materion Diogelwch a Fforddiadwyedd Tai

- Mae 38% o gartrefi yn dibynnu ar Gredyd Cynhwysol neu daliadau lles eraill, gan godi i 60% o gartrefi anabl, 61% o ofalwyr, a 59% o gartrefi niwroamrywiol.
- Mae rhentwyr preifat yn wynebu pwysau rhent uwch: mae 16% yn ei chael hi'n anodd o'i gymharu â 6% o rentwyr cymdeithasol.
- Mae costau byw cynyddol yn effeithio ar 31% o denantiaid.
- Mae dyheadau perchnogaeth cartref yn isel: 8% yn gyffredinol, 4% ar gyfer tenantiaid ag anabledau, gan adlewyrchu anghydraddoldebau.

Materion Llesiant Tenantiaid

- Mae 17% yn teimlo'n ansefydlog oherwydd lleithder, diffyg atgyweirio, fforddiadwyedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu broblemau hygrychedd.
- Mae tenantiaid Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac LGBTQ+ 6% yn fwy tebygol o deimlo'n ansefydlog.
- Atgyweiriadau a chynnal a chadw yw'r prif reswm dros gysylltu â landlordiaid o hyd.
- Prif flaenoriaethau gwella cartrefi: cynllun/maint (15%), atgyweiriadau (15%), parcio/Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (14%), effeithlonrwydd ynni (10%).
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r prif bryder cymunedol (17%).

Materion Rhyngweithiadau Tenant-Landlord

- Cyfranogiad mewn arolwg i fyny 5%, ceisiadau am gymorth/cyngor i fyny 11% (21% cymdeithasol yn erbyn 8% preifat).
- Mae rhyngweithio wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn gyfyngedig.
- Mae 20% yn teimlo'n ansicr neu'n ddifater ynghylch ymgysylltiad â landlordiaid, gan godi i 30% ar gyfer rhentwyr preifat o dan 30 oed.
- Mae atgyweiriadau'n dominyddu rhyngweithiadau; 55% yn fodlon ar yr ymgysylltiad, 23% yn anfodlon.
- Mae tenantiaid eisieu i landlordiaid flaenoriaethu cartrefi diogel, fforddiadwydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a gwranddo ar adborth.

Materion Stigma Rhentu

- Profodd 19% sylwadau negyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; 26% erioed.
- Mae rhentwyr preifat yn adrodd am fwy o stigma (25% yn erbyn 17%), gyda chartrefi LHDT+ a derbynwyr lles yn cael eu heffeithio fwyaf.
- Mae stigma yn cynnwys barnau dosbarth, moesol ac ariannol.

Materion Graddfeydd Rhentwyr

- Mae rhentwyr cymdeithasol hŷn yn nodi'r bodlonrwydd mwyaf: cartrefi (4.1/5), cymunedau (3.95/5), cymdogion (3.79/5).
- Mae balchder mewn rhentu ar ei isaf yn gyffredinol (3.5/5), yn enwedig rhentwyr preifat (2.8/5).

Materion Llais Tenantiaid Cenedlaethol

- Pan ofynnwyd iddynt am y prif faterion sy'n effeithio ar ardaloedd lleol tenantiaid a Chymru ar hyn o bryd, tai yw'r prif fater cenedlaethol i 22% o rentwyr preifat a 15% o rentwyr cymdeithasol, ac yna iechyd a'r economi yn agos.
- Mae troseddu yn fwy amlwg i rentwyr cymdeithasol (10% yn erbyn 6% preifat).
- Nodir mewnfudo fel blaenoriaeth is (8%), ychydig yn uwch ymhlith rhentwyr cymdeithasol (9% yn erbyn 5% preifat).

Prif Argymhellion:

1. **Cynyddu fforddiadwyedd a diogelwch tai:** mwy o gartrefi cymdeithasol/fforddiadwy, polisïau rhent sefydlog a chymorth lles.
2. **Gwella ansawdd tai:** atgyweiriadau, addasiadau a mynd i'r afael â pheryglon fel lleithder a llwydni mewn pryd.
3. **Gwella ymgysylltiad tenantiaid:** strategaethau cynhwysol a dulliau sy'n canolbwyntio ar y person, gan gynnwys cynyddu ymgynghoriadau wyneb yn wyneb a sianeli adborth rheolaidd.
4. **Mynd i'r afael â stigma rhentu:** ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwasanaethau eiriolaeth tenantiaid.
5. **Buddsoddi mewn lles cymunedol:** lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella seilwaith a chefnogi cydweithrediad rhwng landlordiaid a chymunedau.
6. **Dylanwadu ar bolisi:** sicrhau bod lleisiau tenantiaid yn dylanwadu ar benderfyniadau tai, iechyd a chymunedol, yn enwedig cyn etholiadau.

Nid oes dull 'un maint i bawb' ar gyfer yr argymhellion hyn ac mae eu gweithredu'n llwyddiannus yn gofyn am gydweithio amlasiantaethol ar draws y sector ac yn bwysicaf oll, cyd-gynhyrchu ystyrion gyda thenantiaid. Gobeithiwn y bydd mewnwelediadau fel yr adroddiad Pwls Tenantiaid hwn yn parhau i fwydo i greu profiad rhentu mwy cyfartal a chynrychiolaeth o denantiaid yng Nghymru ac rydym yn diolch i'n rhanddeiliaid, partneriaid ac ymatebwyr am eu cefnogaeth barhaus.

Cydnabyddiaethau

Awdur: Olivia Browne

Cefnogwyd gan: David Wilton, Iona Robertson, Akshita Lakhiwal

Rydym am fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n panel Pwls Tenantiaid am eu hysbrydoliaeth barhaus a'u hymrwymiad i gymryd rhan yn ein harolygon. Mae eich mewnbwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn helpu i lunio dyfodol tai.

Hoffem hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am ariannu TPAS Cymru yn rhannol fel sefydliad ac i Tai Cymru a'r Gorllewin am y prif nawdd drwy gydol y flwyddyn.



Mae TPAS Cymru wedi cefnogi tenantiaid a landlordiaid yng Nghymru ers dros 30 mlynedd, gan ddatblygu cyfranogiad effeithiol gan denantiaid a chymunedau drwy hyfforddiant, cefnogaeth, prosiectau ymarferol a datblygu polisiâu. Yn lleol, rydym yn cefnogi grymuso cymunedau drwy gyngor ymarferol, cefnogaeth, hyfforddiant a gwaith prosiect.

Ar lefel y Llywodraeth, rydym yn cyfrannu at newidiadau polisi drwy weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod llais y tenantiaid yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau.



[Pwls Tenantiaid](#) yw llais tenantiaid yng Nghymru. Mae wedi cael ei greu gan TPAS Cymru ac mae'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw:

- i) Darganfod beth sydd bwysicaf i denantiaid.
- ii) Cyhoeddi arolygon rheolaidd.
- iii) Cynnal rafflau gwobrau i wobrwyo pobl sy'n cymryd rhan.

Defnyddir canlyniadau ein harolygon gan benderfynwyr i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid ac yn helpu i wneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.

Tenant Voice sponsor



Mae Pwls Tenantiaid yn rhan o raglen waith i hyrwyddo lleisiau tenantiaid. Rydym yn ddiolchgar iawn i Grŵp Pobl, sy'n noddi'r gwaith hwn.

I gyfarfod ag un o'n tîm i drafod y pwyntiau a godwyd, cysylltwch â Olivia Browne, olivia@tpas.cymru

1. Materion Cyd-destun

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o newid sylweddol i dai Cymru. Mae tenantiaid yn parhau i wynebu effeithiau'r argyfwng costau byw, biliau ynni cynyddol, a phwysau ar wasanaethau cyhoeddus, sydd i gyd yn effeithio ar eu bywydau dyddiol. Mae grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan yr amgylchiadau hyn ac yn aml nid ydynt yn cael eu clywed.

Mae landlordiaid cymdeithasol, landlordiaid preifat ac awdurdodau lleol yn gweithredu o fewn tirwedd polisi sy'n newid. Tirwedd sy'n ymdrechu i gryfhau hawliau tenantiaid, gwella mynediad at dai, mynd i'r afael â pheryglon a sefydlogi rhenti, yng nghyd-destun yr argyfwng tai parhaus.

Mae pedwar datblygiad allweddol wedi llunio'r cyd-destun hwn ac wedi gosod y llwyfan ar gyfer Pwls Tenantiaid 2025 - newidiadau cymdeithasol ac economaidd i denantiaid.

- Ymrwymiad i ddarparu tai cymdeithasol a fforddiadwy:** Mae Llywodraeth Cymru wedi adnewyddu ei ffocws ar gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Er bod cynnydd yn cael ei groesawu, mae'r galw yn parhau i fod yn llawer mwy na'r cyflenwad mewn sawl ardal. Mae hyn yn dangos problem barhaus sylfaenol.
- Diwygiadau polisi rhent:** Mae'r Safon Rhent a Thaliadau Gwasanaeth yn gosod paramedrau ar gyfer cynnydd mewn rhent cymdeithasol a thaliadau gwasanaeth, gyda'r nod o ddarparu sicrwydd, tegwch a thryloywder. Fodd bynnag, mae tenantiaid y sector preifat yn parhau i wynebu ansicrwydd ynghylch sefydlogrwydd rhent. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar fodolau rheoli rhent y sector preifat o dan Bapur Gwyrdd a Gwyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond cafodd hwnnw ei ddileu wrth i randdeiliaid tai anghytuno â'r manteision, yr effaith a'r canlyniadau.
- Ymgynghoriad ar beryglon tai:** Ym mis Mai 2025, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru ar reol SATC23 sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol ymateb i leithder, llwydni, a pheryglon eraill a ddiffinnir gan y SATC. Byddai'r rheol yn gorchymyn i landlordiaid gyhoeddi amseroedd ymateb ac adrodd ar berfformiad fel rhan o gydymffurfiaeth â SATC, gan ddilyn esiampl Cyfraith Awaab Lloegr, a gyflwynwyd ar ôl marwolaeth drasig Awaab Ishak, dwy oed, oherwydd problemau iechyd sy'n gysylltiedig â llwydni mewn tai cymdeithasol.
- Etholiadau'r Senedd yn 2026:** Bydd y dirwedd wleidyddol yng Nghymru yn newid yn fuan ac roedden ni eisiau barn ehangach tenantiaid ar faterion Cymreig.
- Polareiddio gwleidyddiaeth:** Yn yr amgylchedd hwn o newid, mae dal lleisiau tenantiaid nid yn unig yn bwysig, ond yn hanfodol. Wrth i'r argyfwng tai ddwysáu a phwysau cymdeithasol, economaidd a demograffig dyfu, mae dadl wleidyddol yng Nghymru yn dod yn fwyfwy dadleuol a rhanedig. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn aml yn tanio lledaeniad gwybodaeth anghywir, ac mae cynnydd deallusrwydd artiffisial ond yn gwneud y mater yn fwy heriol.

2. Materion Methodoleg

2.1 Dull yr Arolwg

Cynlluniwyd a chynhaliwyd yr arolwg hwn ar-lein gyda mynediad agored drwy QuestionPro. Roedd y cwestiynau'n cynnwys y themâu canlynol: demograffeg, profiad a gwerthoedd cartref, bodlonrwydd, cymuned, a hunaniaeth. Mae pob un ohonynt wedi'u rhannu'n themâu gwahanol 'Faterion' fel sail i'r adroddiad hwn. Mae'n cynnwys data ansoddol a meintiol.

Newydd y tro hwn:

- Opsiynau iaith yr arolwg i sicrhau cynhwysiant oedd **Saesneg, Cymraeg, Pwyleg, Punjabi, Rwmaneg ac Wrđw**, yn seiliedig ar y ffaith mai dyma'r 5 iaith a siaredir fwyaf yng Nghymru. Cawsom 15 ymateb yn y Gymraeg ac 1 mewn Pwyleg. Gwneir mwy o ymdrech i hyrwyddo hyn i gymunedau amlieithog.
- Cafodd ei brofi a rhoddwyd adborth gan banel Ymgynghorol Tenantiaid Cymru Gyfan TPAS Cymru erbyn 22.10.2025 a lansiwyd yr arolwg yn gyhoeddus ar 24.10.2025.
- Fe wnaethom hefyd ystyried cwestiynau gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys Tai Cymunedol Cymru a ddylanwadodd yn fawr ar gwestiynau 9 a 18. Mae cyfeiriadau ehangach hefyd at ymchwil arall yn y maes i wella hygredd.
- Yn ogystal, eleni roedden ni eisiau gwrando'n well a rhoi cyfle i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws dilynol penodol, pwrpasol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i glywed eu lleisiau. Mae hyn er mwyn gwella ein dealltwriaeth o grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n drylwyr yn yr arolwg hwn ac mewn data ymchwil ehangach. Bydd y rhain yn rhedeg o'r chwarter nesaf ymlaen. Hyrwyddwyd hyn yn yr arolwg (C20) ac roedden ni wrth ein bodd ei fod wedi cynhyrchu cyfradd ymateb uchel, gyda 177 yn dewis yr opsiwn i gael eu cysylltu.

Cymhellion arolwg:

Rhoddwyd cymhelliant i bob ymatebydd i gymryd rhan mewn raffl gwobrau er mwyn cael yr opsiwn o ennill taleb aml-siop gwerth £25. Mae hyn yn newid o'i gymharu â rafflau gwobrau blynyddoedd blaenorol sef 'Nwyddau Bwyd Cymru' yn seiliedig ar ei fod yn fwy deniadol i gynhyrchu ymatebion ac yn briodol o ystyried costau byw uchel.

Hyrwyddo'r Arolwg:

Defnyddiwyd y dulliau canlynol i hyrwyddo'r arolwg hwn: Postiadau cyfryngau cymdeithasol ar Instagram, TikTok, LinkedIn a Facebook, gan ddefnyddio'r slogan deniadol '**Cartref Hapus: Sut mae un chi?**'. Hysbysebwyd hyrwyddo'r taleb ariannol hefyd.

- Hysbysebion â thâl drwy blatfform Meta (Facebook ac Instagram yn bennaf) i dargedu'r rhai sy'n rhentu'n breifat.
- Anfon e-bost at gysylltiadau o'n cronfa ddata Pwls, ein rhwydweithiau aelodaeth a chysylltu â chynrychiolwyr o grwpiau Amrywiol i'w hannog.
- Hyrwyddwyd yr arolwg hwn yn ein Cynhadledd Flynyddol wyneb yn wyneb.

2.2 Poblogaeth Darged

Roedd ein poblogaeth darged yn cynnwys oedolion (18+) sy'n rhentu yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n rhentu yn y sector preifat a chymdeithasol.

- **Rhentwyr cymdeithasol:** y rhai sy'n rhentu gan Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai a Byw â Chymorth fel 'Tai Cymdeithasol/Rhentwyr Cymdeithasol. Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau yn lefel y gefnogaeth a'r ffocws a ddarperir ond nid oes gennym ddigon o ymatebwyr o dai â chymorth i gasglu gwybodaeth sylweddol.
- **Rhentwyr preifat:** Y rhai sy'n rhentu gan landlordiaid preifat e.e. trwy asiant gosod, neuaddau myfyrwyr neu'n uniongyrchol gan landlord.

2.3 Materion Terminoleg:

- Fe wnaethom ehangu'r opsiynau sydd ar gael i ymatebwyr ddisgrifio naill ai eu hunain neu unrhyw un yn eu cartref i berthyn i unrhyw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a restrir o fewn y demograffig eleni i gynnwys '**niwroamrywiol**', '**person hÿn**' a '**merched**' i sicrhau cynrychiolaeth gywir.
- Defnyddiwyd y term llawn '**Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig**' i sicrhau cynrychiolaeth ehangach, gan ddisodli 'Du a Lleiafrifoedd Ethnig'.
- Mae **Pobl Hÿn** wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n perthyn i'r ystod oedran 56-65 a'r rhai 66+.

3. Materion Demograffeg

Ymatebodd 770 o bobl i'r arolwg hwn, cynnydd cyffredinol o 26.2% o'i gymharu â'r 610 o ymatebwyr yn 2024. Mae'r adran hon yn rhoi cipolwg i ni ar ddemograffeg yr ymatebwyr, gan gynnwys:

- Math o ddeiliadaeth,
- Rhanbarth
- Oedran
- Sefyllfa byw
- Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ffynonellau incwm a chyfyngiadau'r data.

3.1 Materion Math o Ddeiliadaeth

- **Cymdeithasau Tai:** 61%
- **Awdurdodau Lleol:** 16%
- **Rhentu gan landlord preifat:** 21%
- **O'r rhai sy'n rhentu'n breifat,** roedd 46% yn rhentu gan **asiant gosod** a 54% yn rhentu'n uniongyrchol gan **landlord**.
- **Tai â Chymorth:** 1%

Wrth gymharu â ffigurau 2024, mae cynnydd o 5% yn yr ymatebion o dai cymdeithasol (Awdurdod Lleol, Cymdeithasau Tai a Thai â Chymorth gyda'i gilydd) a gostyngiad o 4% o rentwyr o'r sector preifat. Mae'r rhaniad rhentwyr preifat, sef rhaniad cymharol gyfartal o rentu trwy Asiant Gosod yn erbyn rhentu'n uniongyrchol gan landlord, wedi parhau ers nifer o flynyddoedd bellach.


3.2 Materion Rhanbarthol

- **De-ddwyrain Cymru:** 37%
- **De-orllewin Cymru:** 30%
- **Gogledd Cymru:** 19%
- **Canolbarth a Gorllewin Cymru:** 14%
- **Arall (tu allan i Gymru)** 0.4%

Mae hyn yn cydberthyn â blynyddoedd blaenorol gan mai ein hardaloedd â'r nifer uchaf o ymatebwyr yw'r rhai â'r lefelau uchaf o ddwyseddau poblogaeth. O'i gymharu â 2024, nid oes unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol i'w nodi mewn anghydraddoldebau rhanbarthol yn gyffredinol.

3.3 Materion Oedran

- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn 66+ oed (28%), ac nid yw'n syndod yng nghyd-destun ehangach poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru.¹
- Mae'r ymateb yn dangos bod rhentwyr cymdeithasol yn hŷn (32%) a bod rhentwyr preifat wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal.
- Roedd nifer uwch o rentwyr preifat yn y categori dan 30 oed (13%), o'i gymharu â 5% o rentwyr cymdeithasol. Mae'r data gweledol yn datgelu patrwm cyson o rentwyr cymdeithasol yn perthyn i grwpiau oedran hŷn.



3.4 Materion Sefyllfa Byw

- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn byw ar eu pen eu hunain yn gyffredinol (41%). Wrth eu dadansoddi, mae grwpiau tai preifat (27%) a chymdeithasol (45%) yn dangos patrymau tebyg o fyw ar eu pen eu hunain.
- Roedd nifer uwch o denantiaid preifat a ddisgrifiodd eu hunain fel rhiant sengl yn byw gyda phlant (16%) na rhentwyr cymdeithasol (12%).
- Roedd rhentwyr preifat hefyd yn fwy tebygol o fod yn byw gyda ffrindiau/cyd-letywyr na'r rhai mewn cartrefi cymdeithasol, yn enwedig y rhai o dan 30 oed.

3.5 Materion Grwpiau heb Gynrychiolaeth Ddigonol

Gofynnwyd i rentwyr: 'Ydych chi neu unrhyw un yn eich aelwyd yn ystyried eich hun yn perthyn i unrhyw un o'r grwpiau tangynrychioledig canlynol? (cliciwch bob un sy'n berthnasol)'.

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad:

Grŵp	% Cyffredinol	Tai Cymdeithasol	Sector Rhentu Preifat
Nid yw'r un o'r rhain yn berthnasol i mi	12.7%	11.7%	15.5%
Menywod	20.2%	18.7%	27%
Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	2.8%	2.6%	3.2%
LHDTQ+	4.9%	4%	8.8%
Niwroamrywiol	8.9%	8.4%	11.2%
Person hŷn	16.8%	18.3%	12%
Gofalwr	7.6%	2.9%	6.4%

¹ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 'Deall poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru': ystadegau allweddol' [221222-Understanding-Wales-ageing-population-24-November.pdf](https://www.comisiynyddpoblhyn.cymru.gov.uk/221222-Understanding-Wales-ageing-population-24-November.pdf) (2024)

Anabledd a/neu golled synhwyraidd	23.2%	26%	12.4%
Nid Saesneg yw fy iaith gyntaf	1.3%	1.1%	2%
Arall ²	1.5%	1.3%	1.2%

Mae'r canfyddiadau'n dangos gwahaniaethau clir yn y ffordd y mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi'u dosbarthu ar draws deiliadaethau tai.

- Ymatebwyr anabl yw'r grŵp mwyaf a nodwyd yn gyffredinol (23%), gyda chyfran hyd yn oed yn uwch mewn tai cymdeithasol (26%).
- Mae menywod yn cynrychioli 20.2% yn gyffredinol ond maent yn codi'n sydyn i 27% yn y sector rhentu preifat. Mae cyfranogwyr LHDT+ (9%) a niwroamrywiol (11%) hefyd yn ymddangos yn amlach yn y sector rhentu preifat.
- I'r gwrthwyneb, mae pobl hŷn (17%) a gofalwyr (8%) yn fwy cyffredin mewn tai cymdeithasol nag mewn tai rhentu preifat.
- Mae grwpiau â chynrychiolaeth gyffredinol is, fel y rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (3%) a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf (1%), yn parhau'n gymharol gyson ar draws sectorau, gyda gwahaniaethau bach iawn.

3.6 Materion Ffynonellau Incwm

Mae ffynonellau incwm yn cynnig cipolwg ar fwy na dim ond sut mae pobl yn ennill arian. Maent yn darlunio darlun ehangach o sut mae pobl yn cadw to uwchben eu pennau ac yn goroesi o ddydd i ddydd.

Materion Lles

- Mae canfyddiadau allweddol yn dangos mai Credyd Cynhwysol a budd-daliadau lles eraill yw prif ffynhonnell incwm 38% o gartrefi yn gyffredinol. Roedd cynnydd o 2% o 2024 i'r rhai sy'n nodi Credyd Cynhwysol a thaliadau lles fel eu prif ffynhonnell incwm cartref yn gyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y darlun yn gymhleth ac efallai na fydd rhai tenantiaid eisiau datgelu'r mater hwn.
- Y rhai â'r lefelau uchaf o les fel prif ffynhonnell incwm oedd: Gofalwyr (61%), y rhai ag aelodau Anabl a/neu golled synhwyraidd (60%), yn ogystal ag aelwydydd Niwroamrywiol (59%).

Materion incwm sy'n gysylltiedig â gwaith

- Mewn cyferbyniad, incwm sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n dominyddu ymhlith aelwydydd preifat (68%), tra mai lles yw'r prif ffynhonnell ymhlith aelwydydd cymdeithasol (44%).
- Roedd 52% o'r bobl hŷn yn y sampl hon yn dibynnu'n bennaf ar incwm ymddeol (46%), ac yna taliadau lles (30%) yn agos at hynny. Gellid herio hyn gan nad oes gwahaniaeth rhwng cyfraniadau pensiwn y wladwriaeth a chyfraniadau pensiwn sy'n gysylltiedig â gwaith.

² Nododd y rhai a ddewisodd eraill - 1 fod ganddynt anaf i'r ymennydd, nododd 4 gyflyrau iechyd cronig a nododd 3 broblemau iechyd meddwl.

Cyfyngiadau

- Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein, a allai eithrio pobl â mynediad neu sgiliau digidol cyfyngedig.
- Gan mai arolwg gwirfoddol a gylchredwyd yn bennaf o fewn rhwydweithiau tai cymdeithasol, mae'r ymatebion yn gamarweiniol: mae 78% o'r rhentwyr a holwyd yn denantiaid tai cymdeithasol, sydd ddim yn gynrychioliadol o batrymau rhentu cenedlaethol.
- Mae ymatebwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol o'i gymharu â'r ffigwr o 6% o boblogaeth Cymru gyfan.
- Oherwydd natur ddiwylliannol unigryw cymunedau a thenantiaeth Sipsiwn, Roma a Gwyddelig, nid yw'r cymunedau hyn yn cydymffurfio â llawer o'r cwestiynau mewn perthynas â deiliadaeth yn yr arolwg hwn ac felly nid ydynt wedi'u cynrychioli'n drylwyr o ganlyniad.
- Mae rhai mathau o ddeiliadaeth, gan gynnwys tai â chymorth, yn cyfyngu ar ddadansoddiad cymharol.
- Ni ellir cymharu pob cwestiwn â'r llynedd (e.e., sefyllfa byw), er y bydd hyn yn cael ei safoni ar gyfer arolygon yn y dyfodol.
- Mae cwestiynau cymharol o flwyddyn i flwyddyn yn cynnwys bodlonrwydd, blaenoriaethau landlordiaid, fforddiadwyedd, cymuned, ac aelwydydd.



MATERION DARGANFYDDIADAU




4. Materion Cartref

Yn yr adran hon, rydym yn archwilio:

- Blaenoriaethau Cartref
- Fforddiadwyedd
- Gwelliannau Cartref

4.1 Materion Sefyllfaedd Rhentu

Mae cartref yn rhan hanfodol o'n bywydau. Gofynnwyd i denantiaid sut y byddent yn disgrifio eu sefyllfa rhentu bresennol a chanfuom y canlynol:



Rhentu tymor hir yw'r mwyaf poblogaidd o hyd

Mae'r mwyafrif (61%) yn disgrifio cynllunio i aros yn eu cartrefi am amser hir. Fodd bynnag, mae'r rhaniad daliadaeth yn dangos y gwahaniaeth gyda dim ond 39% o rentwyr yn y sector preifat yn dewis yr ateb hwn, o'i gymharu â 67% o rentwyr tai cymdeithasol. Gallai hyn adlewyrchu'r demograffeg hŷn mwy amlwg sy'n bresennol mewn tai cymdeithasol sy'n fwy tebygol o fod eisiau ymgartrefu yn eu cartrefi am gyfnod hirach. Ar y llaw arall, gallai fod oherwydd y ffaith bod cartrefi cymdeithasol yn dod yn fwyfwy anodd eu cael oherwydd bod galw cynyddol yn rhagori ar y cyflenwad, gan fod 94,000 o aelwydydd yng Nghymru yn aros i gael cartref cymdeithasol³.

Gallai hyn esbonio pam mae'r rhai mewn cartrefi cymdeithasol yn eu hystyried fel math mwy parhaol o denantiaeth ac felly'n teimlo'n fwy diogel na'r rhai yn y farchnad rhentu preifat. Yn gyffredinol, roedd cynnydd o 6% yn yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn hwn o'i gymharu â'r llynedd, sy'n awgrymu newid yn y ffordd y mae rhentu tymor hir yn cael ei dderbyn.

³ Shelter Cymru (2025). Mae 94,000 o gartrefi yng Nghymru – hynny yw un mewn pob 14 – yn aros am gartref cymdeithasol'

Ansicrwydd Rhentu yn parhau

Fodd bynnag, yr ail ateb mwyaf poblogaidd oedd "Dydw i ddim wedi setlo yn fy nghartref" (17%). Wrth edrych yn agosach, datgelodd y data ansoddol o'r adran hon mai'r prif themâu y tu ôl i'r ateb hwn oedd:

- a) **Lleithder ac adfeiliad - gan gynnwys problemau iechyd a diogelwch oherwydd hyn**
- b) **Problemau fforddiadwyedd**
- c) **Cartref anaddas ar gyfer anghenion e.e. maint, anabledd, oedran**
- ch) **Ymddygiad gwrthgymdeithasol**
- d) **Ansicrwydd tenantiaeth**

Ansicrwydd troi allan mewn tai preifat: Soniodd rhentwyr preifat yn yr arolwg hwn dro ar ôl tro am ansefydlogrwydd peidio â gwybod pryd y bydd eu landlord yn gofyn iddynt adael a'r ansicrwydd. Gall landlordiaid yng Nghymru barhau i gyhoeddi troi allan "heb fai", ond dim ond o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (gan ddefnyddio hysbysiad Adran 173), a dim ond os ydynt yn rhoi o leiaf chwe mis o hysbysiad ysgrifenedig a bod y tenant wedi byw yno am o leiaf chwe mis.⁵

Gall tai gwael, boed oherwydd lleithder ac adfeiliad, pwysau fforddiadwyedd, cartrefi nad ydynt yn diwallu anghenion hygyrchedd neu le, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, danseilio ymdeimlad pobl o sefydlogrwydd yn sylweddol ac effeithio'n negyddol ar eu lles meddyliol.

Mae'r effaith ddi-baid ar lesiant yn fwy na dim ond anghyfleus - i rai tenantiaid mae wedi profi'n ddinistriol. Myfyriodd un unigolyn: **"Mae byw yma yn effeithio ar fy iechyd meddwl, gan achosi meddyliau hunanladdol, ond does dim lle addas i drosglwyddo iddo."** Mae'r dystiolaeth honno'n datgelu realiti llym.

Roedd tenantiaid o aelwydydd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn fwy tebygol o nodi nad oeddent yn teimlo'n gartrefol yn eu cartrefi o 6% o'i gymharu â'r sampl gyffredinol, sy'n dangos lefelau uwch o ansicrwydd tai. Mae hyn yn adlewyrchu anghydraddoldebau strwythurol ehangach yn y sector tai, gan gynnwys hiliaeth systemig, sy'n cyfrannu at ganlyniadau anghymesur - fel bod aelwydydd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig dair gwaith yn fwy tebygol o brofi digartrefedd na aelwydydd Gwyn⁵.

Yn ogystal, dangosodd ymatebwyr LHDT+ lefelau anghymesur o ansicrwydd cartref hefyd, gyda'r grŵp hwn hefyd 6% yn fwy tebygol na'r sampl cyffredinol o ddewis yr opsiwn hwn. Yn ôl ymchwil ehangach, mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o brofi ansicrwydd tai, digartrefedd ac yn fwy tebygol o wynebu gwahaniaethu gan landlordiaid.

⁵ **Llywodraeth Cymru.** (2025). *Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru): asesiad effaith integredig*

Dyheadau perchnogaeth cartref yn erbyn realiti fforddiadwyedd

Dim ond 8% o'r holl rentwyr yn yr arolwg a ddywedodd eu bod yn bwriadu rhentu nes y gallant brynu, yr un fath ag yn 2024. Fel y disgwyliwyd, roedd tenantiaid preifat yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn aros yn eu heiddo nes y gallent fforddio prynu (21%), gyda llawer o'r rhain (40%) yn rhai o dan 30 oed. Roedd y nod o fod yn berchen ar gartref bron i hanner hyn ar gyfer rentwyr cymdeithasol o dan 30 oed (21%).

Fodd bynnag, i'r rhai a ddewisodd yr opsiwn hwn ar draws deiliadaethau, fe wnaethant dynnu sylw at yr anawsterau o ran cael mynediad at yr ysgol eiddo wrth rentu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhent uchel yn eu heiddo presennol
- prisiau tai yn eu hardal yn rhy ddrud
- costau byw uchel yn gyffredinol.

Rhoddodd ymatebwyr a oedd yn byw ar eu pen eu hunain, neu'n rhieni sengl yn byw gyda phlant neu'r rhai gyda phartneriaid a phlentyn/plant sylwadau yn y data ansoddol yn cyfeirio at y materion hyn:

- **“Mae cyflog sengl a chost byw uchel yn ei gwneud hi'n amhosibl dringo ar yr ysgol, yn anodd cynilo”**
- **“Hoffwn fod yn berchen ar dŷ. Rhywbeth i'w drosglwyddo i'r plant. Mae cael digon o arian ar gyfer blaendal bron yn amhosibl. Mae'n rhy ddrud byw yn y DU”**
- **“Mae gen i gyfrifoldebau gofal plant a gofalu, ar incwm isel iawn a diweithdra. Rhy anodd cynilo blaendal - Gan fy mod yn fenyw sengl, mae'n annhebygol iawn y byddaf yn gallu sicrhau morgais ar incwm sengl.”**

Ar gyfer pob tenant a nododd eu bod nhw neu rywun yn eu haelwyd gydag anabledd a/neu gyda cholled synhwyrdd, hanerwyd y ffigur hwn o ddyheadau perchnogaeth cartref i 4%. Mae hyn yn cydberthyn â data ehangach bod pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol ac yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r data hwn yn cyfleu bod rentwyr anabl yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cysyniad cynyddol anfforddiadwy o berchnogaeth cartref yn yr hinsawdd bresennol.

Materion diffyg rheolaeth ac effeithiau sylweddol tldi:

Thema gyffredinol ar draws yr holl atebion oedd ymdeimlad o fod yn ddi-rym o fewn y profiad rhentu, hyd yn oed ymhlith y rhai a ddisgrifiodd eu hunain fel rhai sefydlog. Teimlai llawer o denantiaid fod eu sefydlogrwydd yn amodol a gallai gael ei amharu ar unrhyw adeg gan gostau cynyddol, penderfyniadau landlordiaid, neu broblemau atgyweirio heb eu datrys..

“Rydym yn hapus yma ond prynu yw'r unig ffordd o sicrhau diogelwch tai.”

Mae'r teimlad hwn yn gyson ag ymchwil ehangach sy'n dangos bod tlodi yn cyfyngu ar ddewisiadau tai tenantiaid ac yn eu hamlygu i ansicrwydd tai mwy. Mae astudiaethau cenedlaethol wedi canfod bod aelwydydd incwm isel yn llawer mwy tebygol o aros mewn cartrefi nad ydynt yn diwallu eu hanghenion, profi symudedd cyfyngedig o fewn y farchnad dai, ac wynebu risgiau uwch o lety o ansawdd gwael neu anaddas.

Mae'r pwysau hyn yn gwaethgu'r teimlad o **"dim dewis"** a grybwyllwyd dro ar ôl tro gan ymatebwyr ac yn gadael llawer o denantiaid yn methu symud i gartrefi mwy diogel, iachach neu fwy priodol. Gwnaeth un ymatebydd sylw: **"Nid yw fy nghartref yn addas iawn ar gyfer fy oedran a'm hanableddau, ond dyna'r cyfan y gallaf ei fforddio nes y gallaf symud i lety ymddeol."**

Mynegodd tenantiaid yn ein harolwg deimladau o deimlo'n ddi-rym a diffyg rheolaeth, **"Rwyd wedi fy nghaethiwo gan dlodi"**, gyda llawer o ymatebwyr yn y sector cymdeithasol hefyd yn enwi eu cymdeithasau tai neu awdurdodau lleol fel rhai sy'n anwybyddu pryderon ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol er gwaethaf iddynt rhoi gwybod iddynt.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod canlyniadau tlodi, deiliadaeth ansicr a diffyg rheolaeth yn ymestyn ymhell y tu hwnt i fforddiadwyedd yn unig. Maent yn pennu a all tenantiaid fyw o gwbl, yn llunio pa mor ddiogel a sicr y maent yn teimlo, ac yn tynnu llawer o unrhyw awdurdodaeth wirioneddol dros eu cartrefi, gydag effeithiau dwys a niweidiol ar eu hiechyd meddwl, sefydlogrwydd ac urddas.

4.2 Yr Hyn sydd Bwysicaf yn y Cartref:

⁵Gofynnwyd i denantiaid restru'r datganiadau a roddwyd ynghylch yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw, 1-6 yn nhrefn eu dewis, gydag 1 yn bwysicaf. Mae'r data'n dangos bod pob tenant wedi rhestru'r isod yn nhrefn eu pwysigrwydd.:

1. Cadw fy nghartref yn ddiogel, yn gynnes, yn sych ac yn gyfforddus
2. Teimlo'n ddiogel ac yn saff yn fy nghartref
3. Cael gwaith atgyweirio a chynnal a chadw wedi'i wneud yn gyflym pan fydd rhywbeth yn torri
4. Faint mae rhentu fy nghartref yn ei gostio
5. Byw mewn cartref sy'n defnyddio llai o ynni ac yn costio llai o ynni i'w gynhesu
6. Digon o le i bawb yn fy nghartref

⁵ Datblygwyd y cwestiwn hwn mewn partneriaeth â Thai Cymunedol Cymru, rhanddeiliad allweddol o fewn y sector tai cymdeithasol..

Ar gyfer y cwestiwn hwn, roedd gan rentwyr cymdeithasol yr un patrwm o atebion â'r ymatebwyr cyffredinol o ran trefn pwysigrwydd fel y nodwyd uchod.

I Rentwyr Preifat, Rhent sydd Bwysicaf:


Fodd bynnag, ar gyfer rhentwyr preifat, roedd gwahaniaethau sylweddol yn cael eu rhestru:

1. Faint mae rhentu fy nghartref yn ei gostio
2. Cadw fy nghartref yn ddiogel, yn gynnes, yn sych ac yn gyfforddus
3. Teimlo'n ddiogel ac yn saff yn fy nghartref
4. Cael gwaith atgyweirio a chynnal a chadw wedi'i wneud yn gyflym pan fydd rhywbeth yn torri
5. Byw mewn cartref sy'n defnyddio llai o ynni ac yn costio llai i'w gynhesu
6. Digon o le i bawb yn fy nghartref

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos, er bod pob tenant yn blaenoriaethu diogelwch, cynhesrwydd a sicrwydd yn y cartref uwchlaw popeth arall, bod rhentwyr preifat yn rhoi fforddiadwyedd fel eu pryder mwyaf, gan dynnu sylw at y pwysau ariannol mwy llym a brofir yn y sector rhentu preifat. Mae rhentwyr cymdeithasol yn cael gwarantau o godiadau rhent mwy sicr a rheoledig o'i gymharu â'r codiadau mwy anhagwladwy sy'n digwydd yn y farchnad rhentu preifat.

4.3 Materion Fforddiadwyedd

Mae gallu fforddio rhent a biliau yn elfennau hanfodol o fodoli fel rhentwr. Gofynnwyd i denantiaid a ydynt yn cael trafferth talu eu rhent neu eu biliau ac, os felly, pam.




- Mae'r rhan fwyaf yn cael trafferth oherwydd biliau/costau byw uwch (31%), ac wrth edrych ar ddadansoddiadau o fathau o ddaliadaeth, rhentwyr cymdeithasol oedd â'r effaith leiaf gan lefelau rhent (6%), a rhentwyr preifat oedd â'r effaith fwyaf gan rent uchel (16%).
- O'i gymharu â'r llynedd, bu gostyngiad o 20% yn y rhai a ddewisodd yr opsiwn 'dim problem, yn gallu talu am y ddau', sy'n awgrymu bod llai o denantiaid yn gallu fforddio eu rhent a'u biliau.
- Roedd rhentwyr y dywedwyd bod eu prif incwm cartref yn cael ei gynhyrchu o waith yn fwy tebygol nag eraill o ddewis yr opsiwn hwn, ond dim ond 1%. Fodd bynnag, dim ond 23% o rentwyr preifat a ddewisodd yr opsiwn hwn, o'i gymharu â 30% o rentwyr cymdeithasol, sy'n dangos problemau ehangach fforddiadwyedd o fewn y sector rhentu preifat fel y cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn.
- Gwelsom mai dim ond 24% o'r rhai oedd naill ai'n rhieni sengl yn byw gyda phlant neu'n byw gyda phartneriaid a phlant, llai na'r cyfartaledd, a ddewisodd yr opsiwn nad oes ganddynt unrhyw broblemau talu am rent a/neu filiau, gan gyfeirio at oblygiadau ehangach fforddiadwyedd i deuluoedd sy'n ceisio cael dau ben llinyn ynghyd..

Materion biliau cynyddol a chostau byw:

Yn yr opsiwn a ddewiswyd amlaf i'r cwestiwn hwn oedd 'Mae fy biliau a'm costau byw wedi cynyddu' (31%). Mae hyn i lawr 11% o 2024, ond serch hynny, mae'n amlwg yn parhau i fod yn ateb parhaus i lawer o rentwyr ac yn adlewyrchu effeithiau parhaus costau byw uchel.

Yn yr opsiwn blwch testun deinamig, i'r rhai a ddewisodd mai'r rheswm pam fod eu biliau a'u costau byw wedi cynyddu yw'r prif reswm pam eu bod yn ei chael hi'n anodd talu eu rhent neu eu biliau, rhestwyd yr holl rai isod fel rhai sy'n cynyddu:




Felly mae'r canfyddiadau'n atgyfnerthu, i gyfran sylweddol o denantiaid, nad cynnydd mewn rhent yn unig sy'n achosi straen ariannol, ond y cynnydd cronus ar draws costau byw.

Materion Credyd Cynhwysol a thaliadau Lles:

- Roedd tenantiaid cymdeithasol yn fwy tebygol na'r rhai yn y sector preifat o ddweud bod eu taliadau Credyd Cynhwysol neu lesiant yn rhy isel - a bod hyn yn rheswm allweddol dros anhawster talu biliau.
- Mae aelwydydd gan gynnwys unigolion ag anabledd neu golled synhwyrdd, rhieni sengl â phlant a rhentwyr hŷn yn arbennig o debygol o briodoli anawsterau talu rhent neu filiau i daliadau budd-daliadau isel.
- Roedd pobl sy'n byw gyda phartner a phlant, neu rieni sengl â phlant, yn fwy tebygol na'r sampl gyffredinol o ddewis yr opsiwn hwn, gan bwyntio efallai at broblemau ehangach gyda'r system lesiant a thlodi plant. Bydd y penderfyniad diweddar i ddileu'r cap budd-daliadau dau blentyn yn dod â chefnogaeth i tua 69,000 o blant yng Nghymru, symudiad y disgwylir iddo leihau tlodi plant yno 3 - 4%. Fodd bynnag, bydd nifer o denantiaid â phlant (yn cynnwys y rhai â dau neu lai) dal angen gwell digonolrwydd budd-daliadau a gwelliannau safonau byw yn gyffredinol cyn i'r gefnogaeth honno wneud gwahaniaeth gwirioneddol, gan fod llawer yn llithro drwy'r rhwyd.⁶

4.4 Materion Gwelliannau Cartref:

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd **yr un peth yr hoffent ei newid am eu cartref** a chanfuom y canlynol:



Roedd y rhan fwyaf eisiau newid y canlynol:

- **Cynllun/maint yr eiddo (15%)**
- **Gwell atgyweiriadau a chynnal a chadw (15%)**

⁶ Sefydliad Bevan (2025) [Why scrapping the two-child limit must be the start and not the end of efforts to end child poverty - Bevan Foundation](#)

- **Parcio/Materion YG ⁷ (14%)**
- **Gwell effeithlonrwydd ynni (10%)**
- **Gwell problemau anabledd/addasu (8%)**

Mae'r ffigurau agos hyn yn tynnu sylw at ba mor rhanedig yw trigolion ynghylch eu blaenoriaethau ac yn awgrymu nad oes un pryder amlwg. Yn hytrach, mae'n dangos lledaeniad cymharol gyfartal o anghenion ar draws newidiadau cynllun/maint, atgyweiriadau, a phroblemau parcio/ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, rhoddodd rhentwyr preifat bwyslais uwch ar atgyweiriadau/cynnal a chadw (23%) o'i gymharu â 16% o rentwyr cymdeithasol. Roedd rhentwyr cymdeithasol yn fwy tebygol o roi pwyslais uwch ar newid parcio/Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (14%) na'r rhai sy'n rhentu'n breifat (8%). Mae'r anghydraddoldebau hyn yn tynnu sylw at sut mae math o ddeiliadaeth yn dylanwadu ar ba faterion a ystyrir yn bwysicaf.

Yn yr arolwg blaenorol, atgyweiriadau a chynnal a chadw oedd y flaenoriaeth uchaf (14%), ac yna effeithlonrwydd ynni (13%), yna cynllun/maint (11%) a pharcio/YG (10%), gyda 10% yn nodi na fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau.

Yn yr arolwg cyfredol, mae cynllun/maint wedi codi i ymuno ag atgyweiriadau a chynnal a chadw fel y prif bryder. Mae parcio/ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd wedi cynyddu o ran amlygrwydd. Yn y cyfamser, mae'n ymddangos bod pryder ynghylch effeithlonrwydd ynni wedi gostwng ychydig o'i gymharu â materion eraill ac mae'r gyfran sy'n nodi nad oes awydd i newid wedi gostwng - fel nad yw "dim problemau" bellach ymhlith y pum uchaf.

Goblygiadau posibl i landlordiaid:

- **Landlordiaid Preifat:** Angen rheoli pwysau fforddiadwyedd, cynnal eiddo i safon uchel, ac ymateb yn brydlon i bryderon atgyweirio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw tenantiaid a lleihau trosiant.
- **Landlordiaid Cymdeithasol:** Dylai ganolbwyntio ar lesiant tenantiaid hirdymor, mynd i'r afael ag atgyweiriadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, hygyrchedd ac effeithlonrwydd ynni, gan gynnal rhenti rheoleiddiedig i ddarparu sefydlogrwydd.

⁷ Mae YG yn acronym am 'Ymddygiad Gwrthgymdeithasol'. Dim ond at ddiben y graff hwn y mae wedi'i acronymeiddio, nid at ddiben y cwestiwn ei hun..


5. Materion Rhyngweithio Landlord

Yn yr adran hon, rydym yn ymdrin â:

- Pa rhyngweithiadau a gafodd rhentwyr gyda'u landlordiaid
- Materion yn ymwneud â bodlonrwydd landlordiaid

5.1 Materion Rhyngweithiadau Landlord a Thenant

Gofynnwyd i Denantiaid pa rhyngweithiadau a gawsant gyda'u landlord/asiant gosod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gallent ddewis pob un sy'n berthnasol.



Mae atgyweiriadau a chynnal a chadw yn dominyddu rhyngweithiadau:

Y prif rhyngweithiadau rhwng landlordiaid a thenantiaid oedd: Ceisiadau atgyweirio/cynnal a chadw wedi'u cofnodi, yn debyg i ffigurau 2024. Roedd hyn yn gyffredin yn newis rhentwyr cymdeithasol a phreifat gan atgyfnerthu canologrwydd cyflwr eiddo ym mhob ymgysylltiad rhwng rhentwyr a landlordiaid drwy gydol y flwyddyn.

Ceisiadau am arolygon a barn yn cynyddu:

Roedd cynnydd o 5% yn nifer y rhai a ddewisodd gael eu gofyn am eu barn/cwblhau arolwg, sy'n adlewyrchu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn a welwyd gennym yn ein Pwls Tenantiaid bod tenantiaid a landlordiaid yn rhyngweithio yn y ffordd hon. Er bod y twf hwn yn arafach na'r cynnydd o 8% a welwyd rhwng 2023–2024, mae'n dangos bod landlordiaid yn ceisio mewnbwn tenantiaid fwyfwy, cam allweddol tuag at reoli tai mwy ymatebol.

Ymgysylltiad wyneb yn wyneb cyfyngedig

Mae mynychu digwyddiadau neu gyfarfodydd yn parhau i fod y ffurf leiaf cyffredin o rhyngweithio, heb newid o'r arolwg blaenorol, gan dynnu sylw at yr heriau parhaus o

ran creu cyfleoedd ymgysylltu wyneb yn wyneb mwy personol ac ystyrion gyda thenantiaid. Roedd rhentwyr cymdeithasol yn sylweddol fwy tebygol na'u cymheiriaid rhentu preifat o fynychu cyfarfodydd/digwyddiadau ac o gwblhau arolygon.


Lefelau gofyn am gefnogaeth/cyngor yn cynyddu

Mae cyfran y tenantiaid sy'n ceisio cymorth neu gyngor gan eu landlord wedi codi'n sylweddol, sef 11%, ers y llynedd, sy'n awgrymu dibyniaeth gynyddol ar landlordiaid nid yn unig ar gyfer materion eiddo, ond am arweiniad a chymorth i lywio heriau tai neu lesiant ehangach fel y dangosir drwy gydol yr adroddiad hwn. O'r rhain, roedd rhentwyr cymdeithasol (21%) yn fwy tebygol o ofyn am gymorth/cyngor gan eu landlordiaid o'i gymharu â rhentwyr preifat (8%).

